COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JE Lewis | DG Owen | RM James | SE Baldwin |
| AA Pucella | JE Williams | A Hussain | TH Beedle |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, B Jones, G Thomas a/ac MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

19. DATGANIDAU O FUDDIANT

Dim.

20. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 20 Chwefror Rhagfyr 2018 fel rhai gwir a chywir.

21. PENODI IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Gwnaeth Rheolwr Tîm Trwyddedu gyflwyno adroddiad yn cynnig aelodaeth Is-bwyllgor Trwyddedu, ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2018.

Roedd angen y cynigion er mwyn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau trwyddedu cyffredinol. Roedd ystod y swyddogaethau wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor a oedd yn cynnwys trwyddedu tacsis, masnachu stryd, a gwaith trwyddedu cyffredinol eraill yn ôl yr angen. Byddai adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â swyddogaethau Deddf Trwyddedu 2003 a'r Ddeddf Gamblo 2005.

Ar 16 Mai 2018, derbyniodd y Cyngor adroddiad sy'n pennu aelodaeth Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a'r Pwyllgor Trwyddedu. Cynigwyd y byddai'r Pwyllgor Trwyddedu'n parhau â'r trefniadau presennol a chymeradwyo creu dau banel ar sail rota, a'r ddau'n cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu fydd yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo'n bosibl.

Eglurodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu bod gofyn hefyd i'r Pwyllgor ystyried newid y canllawiau ar gyfer cyfeirio achosion at yr Is-bwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi mabwysiadu Datganiad Polisi ynghylch perthnasedd collfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr, a oedd eisoes wedi cyflwyno canllawiau ar gyfer pa achosion ddylid cael eu cyfeirio at Is-bwyllgor ar gyfer cyflwyno'r drwydded. Roedd hyn wedi arwain at ymgeiswyr gyda chollfarnau'n cael eu cyfeirio, y tu hwnt i ganllawiau polisi, er enghraifft os cafodd y person ei erlyn yn ei ieuenctid. Nododd y polisi presennol y gellid ymdrin â'r

hyn a ganlyn dan y Cynllun Dyrannu: Dyrannu trwydded: Gwiriad CRB clir a dim arnodiad ar drwydded yrru DVLA. Felly cynigwyd y dylai'r canllawiau alluogi swyddogion i bennu pob cais nad ydynt yn torri canllawiau'r polisi.

Felly, roedd y diwygiad arfaethedig i Baragraff 8.2 y polisi fel a ganlyn: Dyrannu trwydded: Cyfeirio at yr Is-bwyllgor os yw'r erlyniad o dan y canllawiau polisi a nodir yn y Datganiad Polisi o ran perthnasedd y collfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr.

Holodd Aelod beth byddai'n digwydd os oedd erlyniad yn y 5 mlynedd cyn y dyddiadau cau a nodwyd. Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr bod gan y Pwyllgor hawl i edrych ar gollfarnau oedd wedi dod i ben, ond bod canllawiau eglur megis 10 mlynedd am ymosodiad difrifol a 5 mlynedd am dwyll. Roedd hyn yn bolisi safonol ledled Cymru. Os oedd troseddau twyll neu rywiol difrifol, byddai'r Pwyllgor yn dal i'w hystyried.

Holodd Aelod a oedd angen i ymgeisydd ddatgan unrhyw broblemau iechyd meddwl difrifol. Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr bod angen i'r ymgeisydd gyflwyno tystysgrif meddygol Grŵp 2.

Gofynnodd Aelod oedd modd gweld cofnodion ymgeisydd cyn iddynt gyrraedd y wlad hon. Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr bod angen i'r ymgeisydd gyflwyno PNC neu Dystysgrif Ymddygiad Da o'r wlad wreiddiol. Byddai GDG yn cynnwys hanes cyfeiriadau am y 5 mlynedd ddiwethaf, ac os oedd angen, gallent gael mynediad at dystysgrif manwl a dwy ran y trwydded yrru.

Holodd Aelod a oedd cyfyngiad oedran cyn y gellid rhoi trwydded i rywun. Rhoddwyd wybod i'r Aelod bod rhaid i'r ymgeisydd fod â thrwydded am flwyddyn cyn y gallai ef/hi ymgeisio.

Nododd Aelod y byddai Dirprwyaeth Swyddogion gwell yn ddefnyddiol, a gallai hefyd sicrhau nad oedd y cyfarfodydd yn para mor hir.

Gofynnodd Aelod a oedd yr awdurdod wedi cyflwyno Prawf Wybodaeth. Cafodd wybod bod swyddogion yn dal i weithio ar hyn ac y byddai unrhyw newid yn dod i'r Pwyllgor er awdurdodiad.

PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Pwyllgor:

1) Gymeradwyo creu dau banel ar sail rota, a'r ddau'n cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu fydd yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo'n bosibl.
2) Os digwydd na allai'r Cadeirydd neu'r is-gadeirydd fod yn bresennol yn y cyfarfod Is-bwyllgor perthnasol, câi cadeirydd ei ethol o'r rhai sy'n bresennol. Byddai'r Is-bwyllgorau Trwyddedu hyn yn ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu, gan gynnwys trwyddedu tacsis a masnach stryd fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Is-Bwyllgor A
Y Cynghorydd D Lewis
Y Cynghorydd S Baldwin
Y Cynghorydd T Beedle
Y Cynghorydd R Collins
Y Cynghorydd D Owen
Y Cynghorydd A Pucella
Y Cynghorydd J Williams

Is-Bwyllgor B
Y Cynghorydd P Davies
Y Cynghorydd A Hussain
Y Cynghorydd M James
Y Cynghorydd B Jones
Y Cynghorydd M Kearn
Y Cynghorydd J Lewis
Y Cynghorydd G Thomas

3) Cymeradwyo'r diwygiad i baragraff 8.2 y Datganiad Polisi

4) o ran perthnasedd y collfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr fel a ganlyn: 8.2 Dyrannu trwydded: Cyfeirio at yr Is-bwyllgor os yw'r collfarn o fewn y canllawiau polisi a nodir yn y Datganiad Polisi o ran perthnasedd y collfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr.

22. MATERION BRYS

Dim